**Gwybodaeth bwysig ar ddiogelu data i rieni, gofalwyr a dysgwyr**

Oherwydd effaith COVID-19 ar addysg yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau ar unwaith i roi i bob dysgwr fynediad at Wasanaethau Ychwanegol Hwb.

Mae Llywodraeth Cymru o’r farn ei bod er budd y cyhoedd i sicrhau bod pob dysgwr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn cael mynediad llawn at Hwb fel y gall ysgolion ddefnyddio’r offer dysgu o bell sydd ar gael, megis:

• Microsoft 365 (gan gynnwys Word, Excel ac Outlook e-mail), yn ogystal â Flipgrid a Minecraft: Education Edition, a ddarperir gan Microsoft Corporation
• Google G Suite for Education sef cyfres addysg o offer ar-lein, sy’n cael ei darparu gan Google, Inc
• Just2easy toolsuite, sy’n cael ei ddarparu drwyJust2easy, is-gontractwr CDSM Interactive Solutions Ltd.

Yn flaenorol, dim ond os oedd dysgwyr neu eu rhieni/gofalwyr wedi rhoi caniatâd yr oedd y gwasanaethau hyn ar gael. Felly, ers 23ai Mawrth 2020, mae pob dysgwr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn gallu manteisio ar Wasanaethau Ychwanegol Hwb. Ni fydd ysgolion bellach yn dibynnu ar gydsyniad ac yn lle hynny byddant yn darparu'r gwasanaethau ychwanegol hyn fel rhan o'u tasg gyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr ICO yn https://ico.org.uk/your-data-matters/does-an-organisation-need-my-consent/

Mae gan rieni, gofalwyr neu ddysgwyr sydd â phryderon difrifol am ddiogelu data hawl i wrthwynebu a dylent gysylltu â'u hysgol i egluro pam mae darparu'r gwasanaethau Hwb hyn yn tresmasu ar hawliau a rhyddid y dysgwr. Bydd yr ysgol yn pwyso a mesur a yw darparu mynediad at Wasanaethau Ychwanegol Hwb yn cael ei orbwyso gan ddifrifoldeb y gwrthwynebiad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr ICO yn https://ico.org.uk/your-data-matters/the-right-to-object-to-the-use-of-your-data/

Darllenwch ein gwybodaeth ddiweddaraf am ddiogelu data yng Nghanolfan Cymeradwyo Hwb yn https://hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/canolfan-cymeradwyo/diogelu-data/

Mae rhagor o wybodaeth am yr offer dysgu o bell y bydd ysgolion yn eu defnyddio ar gael yn https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell

Mae rhagor o wybodaeth am ddiogelwch ar-lein ar gael yn https://hwb.gov.wales/parthau/diogelwch-ar-lein

**Important revised data protection information for parents, carers and learners**

Due to the impact of COVID-19 on education in Wales **Welsh Government took steps to provide all learners with access to Hwb Additional Services.**

The Welsh Government believes that it is in the public interest to ensure **every** learner in maintained schools in Wales has full access to Hwb so that schools can use the distance learning tools available including:

• Microsoft 365 (including Word, Excel and Outlook e-mail), as well as Flipgrid and Minecraft: Education Edition, which is provided by the Microsoft Corporation;

• The Google G Suite for Education suite of online tools, which is provided by Google, Inc;

• Just2easy toolsuite, which is provided via CDSM Interactive Solutions Ltd subcontractor Just2easy.

Previously, these services have only been made available where learners or their parents/carers had given consent.

Therefore, from **Monday 23 March 2020**, every learner in maintained schools in Wales will be able to access Hwb Additional Services. **Schools will no longer rely on consent and instead will provide these additional services as part of their public task.**

Further information is available on the ICO website at https://ico.org.uk/your-data-matters/does-an-organisation-need-my-consent/

Parents, carers or learners who have serious data protection concerns have a right to object and should contact their school explaining why the provision of these Hwb services infringes on the learner's rights and freedoms. The school will weigh up whether providing access to Hwb Additional Services is outweighed by the gravity of the objection. Further information is available on the ICO website at https://ico.org.uk/your-data-matters/the-right-to-object-to-the-use-of-your-data/

The Welsh Government has been considering making this change for some time, but has brought forward the decision due to the unprecedented closure of schools in Wales and the need to provide

distance learning support to all learners. This decision has been reached following legal advice and the ICO's office in Wales has been informed. This decision will be reviewed once the current urgent situation has ended.

Please read our updated data protection information in the Hwb Trust Centre at https://hwb.gov.wales/support-centre/trust-centre/data-protection/

Further information about the distance learning tools that schools will use is available at https://hwb.gov.wales/distance-learning

Further information about online safety is available at https://hwb.gov.wales/onlinesafety